**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR SAFONAU**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

**18 Ebrill, 2023**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Presenoldeb:**

**Aelodau Etholedig:** Y Cynghorwyr Anne Lloyd-Jones, Beth Lawton a Dewi Owen

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones (Cadeirydd), Mr Mark Jones a Mr Dave Wareing

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn bresennol:** Ar ran Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Katrin Shaw (Prif Gynghorwr Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau) a Sarah Jones (Swyddog Ymchwilio); Swyddogion Cyngor Gwynedd - Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau / Dirprwy Swyddog Monitro) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yr Aelod sy'n destun y gŵyn:** Y Cynghorydd Louise Hughes

**Yr Achwynydd:** Howard Huws (fel tyst)

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR SAFONAU**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod PWYLLGOR SAFONAU** | 18 Ebrill, 2023 |

**PWNC**

Eitem 3: CWYN O DORRI'R COD YMDDYGIAD A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR SAFONAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

**PENDERFYNIAD**

- **Mewn perthynas â'r honiadau o dorri'r côd, mae'r pwyllgor wedi penderfynu bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Cyngor Gwynedd yn y modd canlynol gan iddi dorri'r darpariaethau canlynol:**

  **4(a) Rhaid i Aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd.**

  **4(b) Rhaid i Aelodau ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt.**

  **6(1)(a) Rhaid i Aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu ar eu hawdurdod.**

- **Ar ôl ystyried difrifoldeb yr ymddygiad dan sylw, ac ar ôl ystyried y ffactorau lliniarol a'r ffactorau gwaethygol perthnasol, penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r Aelod gael ei gwahardd o fod yn aelod o Gyngor Gwynedd am 1 mis.**

- **Bod y Pwyllgor yn disgwyl i'r Aelod fanteisio ar unrhyw gyfleoedd hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor yn y dyfodol, sy'n ymwneud ag ymddygiad aelodau.**

- **Y dylai'r Aelod ysgrifennu at yr Achwynydd o fewn 3 wythnos (o ddyddiad derbyn yr hysbysiad) i ymddiheuro am ei hymddygiad (gyda chopi i'r Swyddog Monitro).**

- **Bod y Pwyllgor yn argymell i Gyngor Gwynedd ystyried os gellid darparu cymorth i aelodau mewn perthynas â gohebiaeth a dderbynnir ganddynt mewn iaith nad ydynt yn ei deall, unai yn fewnol neu drwy gyfeirio aelodau at ffynonellau eraill priodol.**

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.